Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Mae gwaith elusennau ar gyfer Gofalwyr Hŷn yn parhau.



Os ydych chi'n gofalu am rywun, nid ydych ar eich pen eich hun. Bydd tua 3 o bob 5 ohonom yn ofalwyr yn ystod rhyw gyfnod o'n bywydau. Fodd bynnag, mae llawer o bobl yn ein cymunedau'n darparu gofal ond nid ydynt yn gweld eu hunain fel gofalwyr di-dâl ac nid ydynt yn ymwybodol o'u hawliau. Efallai nad ydynt yn ymwybodol o ba gymorth sydd ar gael neu efallai eu bod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i gymorth.

Ers tair blynedd mae Age Cymru ac Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth, a chael eu hariannu gan Grant Trydydd Sector Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, er mwyn cefnogi'r gwaith o adnabod gofalwyr hŷn yn gynnar, a sicrhau bod ganddynt help i ddod o hyd i'r wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnynt. Mae'r bartneriaeth hefyd yn sicrhau bod eu lleisiau'n

cael eu clywed, gan alluogi gofalwyr hŷn i ddylanwadu ar bolisi a chynllunio a darparu gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

Mae Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru wedi ymgymryd â nifer o fentrau er mwyn cefnogi amcanion y prosiect hwn. Mae grŵp Cymuned o Ymarferwyr wedi'i sefydlu gyda gweithwyr proffesiynol ar draws y sector dementia, er mwyn deall y Llwybr Safonau Dementia fel y mae'n ymwneud â gofalwyr pobl sy'n byw gyda Dementia. Mae gwaith hefyd yn cael ei wneud i ddeall rhagnodi cymdeithasol yng Nghymru yn well, fel y mae'n ymwneud â gofalwyr hŷn. Mae'r sefydliad yn parhau i gymryd rhan mewn trafodaethau academaidd a llunio polisïau, gan weithredu fel rhan o'r gweithgor ar gyfer datblygu fframwaith Cymru ar gyfer rhagnodi cymdeithasol.

Mae Age Cymru wedi bod yn cyfarfod â gofalwyr hŷn o bob cwr o Gymru, mewn digwyddiadau ymgysylltu rhanbarthol, hybiau cymunedol, marchnadoedd, yr Eisteddfod Genedlaethol a thu hwnt, yn ogystal â chynnal arolygon cenedlaethol a dwsinau o gyfweliadau unigol 1-2-1 gyda gofalwyr hŷn. Hefyd, datblygwyd nifer o lawlyfrau ac adroddiadau defnyddiol, y gellir eu lawrlwytho o'r wefan neu eu hanfon drwy'r post.

Mae'r prosiect wedi cael cyllid am ddwy flynedd ychwanegol, ac mae'r tîm yn awyddus iawn i gwrdd â gofalwyr hŷn, gofalwyr pobl sy'n byw gyda dementia a'r gweithwyr proffesiynol sy'n gallu eu hadnabod a'u cefnogi.

I gael rhagor o wybodaeth am y prosiect, gan gynnwys ystod o adroddiadau ac adnoddau defnyddiol i ofalwyr, gweler agecymru.org.uk/carers a www.carers.org/wales neu cysylltwch â ni ar 029 2043 1555, a gofynnwch am siarad â'r Tîm Prosiect Gofalwyr.

## Diwedd

**Nodiadau i olygyddion**

1. Age Cymru yw'r elusen genedlaethol ar gyfer pobl hŷn yng Nghymru

2. Ni yw'r llu sy'n cyfuno Age Concern Cymru a Help the Aged Cymru

3. Rydym yn gweithio gyda Phartneriaid Age Cymru lleol ledled Cymru i wella bywydau pobl hŷn

4. Mae Age Cymru yn elusen gofrestredig rhif 1128436

5. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284

6. Ariennir Age Cymru drwy roddion gan y cyhoedd, partneriaid corfforaethol, ein mentrau masnachu, a Llywodraeth Cymru.